

# Cefnogwch eich cymuned leol fel

# cyflogwr sy'n croesawu maethu

maethucymru.llyw.cymru
fosterwales.gov.wales

maethu cymru
foster wales

Mae dros 5000 o blant mewn gofal maeth yng Nghymru, yn eich cymuned. Mae ein teuluoedd sy'n gofalu am y plant hyn yn dweud bod angen hyblygrwydd i gyfuno maethu gyda'u gwaith arall.

Mae cefnogaeth gan eu cyflogwr yn helpu'r rhai sydd â diddordeb mewn maethu, i gymryd y cam brawychus cyntaf hwnnw. Gall sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o'u gyrfa, helpu ein plant.

Gallwch gefnogi plant a theuluoedd maeth yn eich cymuned, drwy fod yn gyflogwr cefnogol sy'n ymwybodol o heriau'r rôl faethu, megis ymateb i argyfyngau, plant yn cyrraedd ar fyr rybudd, mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant.




## Beth sydd ei angen gennych chi

Polisi gwaith hyblyg sy'n berthnasol i ofalwyr maeth. Mae templed polisi Adnoddau Dynol ar gael gan y Rhwydwaith Maethu, sy'n berthnasol i bob gofalwr maeth a'r rhai sy'n gwneud cais i faethu, sy'n cynnig 5 diwrnod o wyliau ychwanegol â thâl.

Addunedwch eich cefnogaeth i hyrwyddo maethu pob Pythefnos Gofal Maeth ym mis Mai.

## Ym mha ffyrdd eraill gallwch chi helpu?

- Mabwysiadwch eich polisi gwaith hyblyg eich hun a chael eich ychwanegu at ein rhestr o gyflogwyr cefnogol yng Nghymru
- Helpwch ni i gyrraedd cynulleidfa wahanol o ran yr angen am ofalwyr maeth (eich cwsmeriaid, staff)
- Cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (profiad gwaith, prentisiaethau)
- Addewid i gynnig gostyngiad i ofalwyr maeth, arddangos poster, defnydd o'ch cyfleusterau, siarad â sefydliadau eraill ar ein rhan, ein gwahodd ni i'ch cyfarfodydd a'ch digwyddiadau.

## Am sgwrs pellach

E-bostiwch: jill.jones@fosterwales.gov.wales i drefnu galwad.